



Addo

o'r Cymoedd i'r Arfordir
from Valleys to Coast



"Rydym yn ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg ble bynnog y bo modd yn ein rhyngweithiadau â chydweithwyr, cwsmeriaid a rhanddeiliaid ac yn ymdrechu i ddatblygu a gwella ar yr un pryd."

**EIN HYMRWYMIAD
I'R GYMRAEG**

o'r Cymoedd i'r Arfordir
from Valleys to Coast



Addo

Ein Hymrwymiad i'r Gymraeg 2023

Mae Cymoedd i'r Arfordir yn ymfalchïo yn y Gymraeg ac rydym eisiau i'r iaith ffynnu. Mae'n rhan o'n hetifeddiaeth a rennir a'n hunaniaeth fel cenedl.

Rydyn ni eisiau cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a byddwn yn cymryd camau rhagweithiol i gefnogi a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein gweithle, gan annog ein cwsmeriaid a'n cydweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgaredd o ddydd i ddydd.

Trwy ymgynghori â'n cwsmeriaid a'n cydweithwyr a thrwy ddefnyddio gwybodaeth gyhoeddus arall sydd ar gael i ni, rydym yn ymwybodol bod y galw am wasanaethau yn y Gymraeg yn isel iawn ar hyn o bryd yn yr ardaloedd lle rydym yn gweithio (yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 9.2% o breswylwyr Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn siarad Cymraeg).

Felly, er nad ydym wedi mabwysiadu polisi cwbl ddwyieithog hyd yma ar gyfer ein gwaith ac wrth gyflenwi gwasanaethau, rydym yn dymuno gweithio tuag at y nod hwn. Byddwn yn parhau i ymgynghori â'n cwsmeriaid fel y gallwn addasu sut rydym yn gweithio i wynebu unrhyw newidiadau yn y galw am y Gymraeg yn y dyfodol.

Yn y cyfamser, rydym yn ymrwymo i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn derbyn gwasanaeth o'r un safon uchel gan Gymoedd i'r Arfordir, p'un a fyddant yn dewis ymdrin â ni yn y Gymraeg neu Saesneg.

Byddwn hefyd yn cefnogi cydweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ble bynnag y bo modd, a datblygu sgiliau iaith Gymraeg ar draws y sefydliad.

Wrth wneud yr ymrwymiad hwn, rydym yn cydnabod nad ydym yn cael ein rheoli gan ddeddfwriaeth ar hyn o bryd, ond serch hynny rydym yn ymdrechu i fod yn y safle gorau posibl i weithredu newidiadau yn y dyfodol.

Cyfathrebu'n ddwyieithog

Rydym yn croesawu ac yn parchu hawl ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid i gyfathrebu â ni yn eu hiaith ddewisol a byddwn yn gwneud popeth y gallwn i'w cefnogi.

Byddwn yn archwilio ffyrdd o gofnodi'r iaith ddewisol fel y gallwn ymdrechu i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r dewisiadau hyn, ble bynnag y bo modd.

Ein gwefan

Mae ein gwefan yn gwbl ddwyieithog. Mae ymwelwyr yn cael dewis rhyngweithio â'r fersiwn Cymraeg neu'r fersiwn Saesneg drwy glicio ar dogl iaith syml. Byddwn yn cynnal y safon hon.

Ein cyhoeddiadau

Byddwn yn sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau statudol ar gael yn ddwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys ein hadroddiadau blynyddol, datganiadau ariannol ac adolygiadau rheoliadol.

Bydd deunyddiau printiedig anstatudol eraill a gynhrychir ar gyfer ein cwsmeriaid (er enghraifft cylchlythyrau cwsmeriaid, taflenni gwybodaeth a deunydd hyrwyddo) ar gael yn ddwyieithog ble bynnag y bo modd o fewn y cyfyngiadau amser ac ariannol.

Ein cyfryngau cymdeithasol

Ar hyn o bryd mae gennym ffrydiau sengl ar gyfer pob platfform cyfryngau cymdeithasol ac rydym yn postio yn Saesneg gan amlaf. Byddwn yn adolygu ein presenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd ac yn ymgynghori â'n cynulleidfaoedd i asesu'r galw am ffrydiau cyfryngau cymdeithasol dwyieithog.

Pan fyddwn yn postio am bwnc sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg (er enghraifft ar Ddiwrnod Shwmae, Mae Gen i Hawl neu Ddydd Gŵyl Dewi) byddwn yn postio'n ddwyieithog.

Os ydym yn rhannu postiad gan sefydliad dwyieithog (er enghraifft CBSP) byddwn yn ceisio rhannu'r postiadau Cymraeg a Saesneg.

Ein sgysiau gyda chwsmeriaid

Byddwn yn annog ein cydweithwyr i gyfathrebu â chwsmeriaid yn ddwyieithog hyd eithaf eu galluoedd a'u hyder. Rydym yn ymrwmo i annog ein cydweithwyr i ddechrau a diweddu pob sgwrs yn ddwyieithog, gan ddefnyddio brawddegau Cymraeg syml 'lefel un' (er enghraifft dweud 'Bore Da/Prynhawn Da' wrth ateb galwadau ffôn, croesawu gwesteion drwy ddweud 'Croeso', a diweddu sgysiau gyda 'Diolch'). Byddwn yn darparu cardiau procio a chiwiau gweledol i helpu ein cydweithwyr i wneud hyn.

Mae gan gwsmeriaid yr hawl i ofyn i ni gyfathrebu â nhw yn y Gymraeg, ac rydym yn ymrwmo i hwyluso hyn. Yn y cyfryw achos, byddwn yn cysylltu'r cwsmer â chydweithiwr sy'n siarad Cymraeg, neu gyfieithydd, cyn gynted â phosibl. Byddwn yn gwneud hyn gyda'r oedi lleiaf posibl.

Byddwn yn dangos pa gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg drwy ddsbarthu bathodynau 'Siarad Cymraeg' (Welsh Speaker) a 'Dwi'n Dysgu Cymraeg' (I'm Learning Welsh) i'w gwisgo ar gortyn neu ddillad.

Pan fyddwn yn cynnal digwyddiadau cyfranogi mewn cymunedau sy'n ddwyieithog gan mwyaf neu mewn ysgolion Cymraeg, byddwn bob amser yn ceisio sicrhau bod cydweithiwr sy'n siarad Cymraeg yn bresennol.

Ein cyfathrebu ysgrifenedig â chwsmeriaid

Pan fyddwn yn ysgrifennu at ein holl gwsmeriaid drwy lythyr, byddwn yn gwneud hyn yn ddwyieithog gan ddefnyddio ein pennawd llythyr dwyieithog safonol.

Pan fyddwn yn ysgrifennu'n uniongyrchol at gwsmer ynglŷn â mater unigol, byddwn yn gwirio dewis iaith y cwsmer ac yn cyfathrebu yn eu hiaith ddewisol. Os nad oes dewis iaith wedi'i gofnodi, byddwn yn ysgrifennu yn Saesneg ond gan gynnig darparu fersiwn Cymraeg ar gais.

Pe byddem yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, byddwn bob amser yn ateb yn Gymraeg, a byddwn yn ymdrechu i gyfyngu ar unrhyw oedi wrth ddarparu cyfieithiad. Lle nad yw cydweithiwr sy'n delio â'r ohebiaeth hon yn siaradwr Cymraeg rhugl, byddwn yn chwilio am gydweithiwr rhugl, neu gyfieithydd, i ddarparu cymorth.

Ein cyfathrebu â rhanddeiliaid

Mae'r rhan fwyaf o'n rhanddeiliaid partner yn y sector cyhoeddus ac felly maent yn gweithredu'n ddwyieithog. Yn ein cyfathrebu ysgrifenedig â rhanddeiliaid, byddwn bob amser yn ceisio cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg. Pan fyddwn yn cyfathrebu'n uniongyrchol â rhanddeiliad unigol, byddwn yn gofyn beth yw eu dull dewisol o gyfathrebu.

Mewn derbyniadau a digwyddiadau mewn person, byddwn yn annog cydweithwyr i gyfrannu'n llawn drwy ddefnyddio cyfleusterau cyfieithu ar y pryd os ydynt ar gael, a byddwn yn eu hannog i ddefnyddio cymaint o'r Gymraeg ac y mae eu gallu a'u hyder yn caniatáu.

Ein cyfarfodydd cyhoeddus

Fel rhan o'n gwaith hyrwyddo a'n gwahoddiadau i gyfarfodydd cyhoeddus (er enghraifft ein cyfarfod cyffredinol blyneddol), byddwn yn gofyn i'r mynychwyr a ydynt eisiau cymryd rhan a chyfrannu yn y Gymraeg. Yn y cyfryw achos, byddwn yn darparu cyfieithu ar y pryd.

Rydym yn ymrwymo i gynnwys y Gymraeg cymaint â phosibl, er enghraifft ar arwyddion croesawu neu mewn sylwadau agoriadol a chau.

Ein cysylltiadau a'r cyfryngau

Rydym eisoes yn cyfieithu'r holl erthyglau newyddion i'w cyhoeddi ar ein gwefan ddwyieithog. Mae ein hasesiad o'r dirwedd gyfryngau bresennol yn

dangos ei bod yn well gan y rhan fwyaf o'r cyfryngau dderbyn datganiadau i'r cyfryngau yn Saesneg (pe byddai darparu fersiwn cwbl ddwyieithog yn arafu eu rhyddhau). Serch hynny, os nad oes cyfyngiad amser ar ddatganiad i'r cyfryngau, byddwn bob amser yn ceisio rhyddhau'r ddwy iaith gyda'i gilydd. Yr eithriad fydd pan fod cyfyngiad amser i'r datganiad – mewn ymateb i argyfwng neu bwnc perthnasol amserol, er enghraifft. Byddwn yn adolygu ein cronfa ddata o gysylltiadau â'r cyfryngau yn rheolaidd i sicrhau bod allfeydd cyfryngau Cymraeg yn cael eu cynnwys.

Pe byddem yn derbyn ymholiad gan y cyfryngau yn Gymraeg, byddwn yn ceisio ymateb yn Gymraeg (oni bai y byddai cyfieithu yn creu oedi sylweddol – yn y cyfryw achos byddem yn trafod hyn gyda'r allfa gyfryngau dan sylw).

Ar hyn o bryd, rydym yn gwrthod unrhyw geisiadau am gyfweiliadau yn y Gymraeg oherwydd y diffyg sgiliau iaith Gymraeg ymhlith y Tîm Gweithredol presennol.

Cyfathrebu â'n cydweithwyr

Ar hyn o bryd nid ydym mewn sefyllfa i ymrwymo i gysylltu â'n cydweithwyr yn gwbl ddwyieithog – fodd bynnag, byddwn yn sicrhau bod rhai cyfathrebiadau mewnol penodol (er enghraifft ynghylch digwyddiadau sy'n ymwneud â Diwrnod Shwmae, Mae Gen i Hawl a Dydd Gŵyl Dewi) ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Byddwn hefyd yn ceisio adolygu dewisiadau a sgiliau iaith Gymraeg yn rheolaidd ar draws y sefydliad a byddwn yn adolygu ein sefyllfa os oes galw.

Datblygu'r Gymraeg

Byddwn yn chwilio am bob cyfle i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ar draws y sefydliad, a byddwn yn cefnogi ac yn galluogi cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'u hiaith ddewisol ble bynnag y bo modd.

Byddwn yn sicrhau bod ein cydweithwyr yn ymwybodol o'n hymrwymiad i'r Gymraeg ac yn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg ar eu lefel gallu neu hyder personol. Rydym eisoes yn gofyn i gydweithwyr asesu eu lefelau

sgiliau iaith (o lefel un - hyfedredd sylfaenol i lefel pump - hyfedredd llawn).

Byddwn yn darparu adnoddau sy'n helpu cydweithwyr i ddefnyddio brawddegau Cymraeg gyda'i gilydd a gyda chwsmeriaid, a byddwn yn cefnogi dysgu a datblygu parhaus drwy hwyluso gwersi ac annog 'cyfeillion' iaith Gymraeg. Mae gennym fan sgwrsio Siarad Cymraeg yn barod lle gall cydweithwyr ryngweithio a dysgu gyda'i gilydd yn Gymraeg.

Trwy ein proses recriwtio, byddwn yn ceisio cynyddu nifer yr aelodau o'n gweithlu sy'n siarad Cymraeg trwy roi ystyriaeth i'r angen am alluoedd ysgrifenedig neu lafar mewn rolau allweddol, a byddwn yn nodi hyn naill ai fel meini prawf dymunol neu hanfodol mewn hysbysebion swyddi perthnasol.

Gweithredu a monitro

Byddwn yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sefydliad ac yn disgwyl i bob cydweithiwr gefnogi ein hymrwymiad i'r Gymraeg, gan sicrhau bod ein polisïau, gweithgareddau a'n gwasanaethau eraill yn cydymffurfio â hynny.

Bydd ein Tîm Gweithredol yn sicrhau bod ein hymrwymiad yn cael ei fynegi a'i ailadrodd yn rheolaidd. Bydd cyflwyniad i'n hymrwymiad yn rhan o'n proses sefydlu i gydweithiwr newydd.

Bydd y Tîm Gweithredol yn adolygu'r ymrwymiad hwn yn rheolaidd, gan ei fod wedi'i amlygu fel risg datblygol yn ein cofrestr risgiau, a gan roi ystyriaeth i wybodaeth newydd (fel gwybodaeth Cyfrifiad a data Arolygon Cwsmeriaid) i asesu'r galw, ar y cyd â chyfarwyddyd gan gyrrff rheoliadol a Chomisiynydd y Gymraeg. Bydd unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau yn cael eu cyflwyno i gydweithwyr, cwsmeriaid a rhanddeiliaid, ynghyd ag i'n Bwrdd.

Byddwn yn ystyried yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i weithredu ein hymrwymiad, er enghraifft y costau ychwanegol a'r amser fydd ei

angen i ddarparu cyfieithiadau. Bydd rhaid i gyfieithiadau gael eu darparu gan gyflenwr trydydd parti medrus a gaffaelir trwy gytundeb fframwaith - hysbysir cydweithwyr nad ydym yn caniatáu defnyddio cyfleusterau cyfieithu awtomatig (er enghraifft Google Translate) er mwyn sicrhau cywirdeb.

Rydym yn croesawu sylwadau, awgrymiadau neu adborth ar ein hymrwymiad Addo a dylid eu hanfon at comms@v2c.org.uk.